# NEVER MIND THE GAP

## PROFIAD GWAITH

Ydych chi'n fenyw â diddordeb mewn edrych ar yrfa foddhaus yn y diwydiant rheilffordd? Darllenwch ymlaen!

Mae'r fenter un-wythnos hon yn cynnig cyfle anhygoel i gyfranogwyr gael hyfforddiant yn ddi-dâl, ar dopigau fel cyflwyniad i'r rheilffordd, magu hyder, sgiliau cyfweliad/ysgrifennu CV a llawer mwy. Bydd y lleoliad gwaith hwn yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd.

Beth allwch chi ei ddisgwyl o'r lleoliad:

- Croeso gan ein Cyfarwyddwr Llwybr – Nick Millington
- Treulio'r diwrnod gyda'n tîm Dysgu a Datblygu, yn edrych ar sut i oresgyn heriau personol wrth ddychwelyd i'r gwaith, trwy brofiadau a rennir ac awgrymiadau ymarferol.
- Cyflwyniad i Drafnidiaeth Cymru a phrofiad o rai o'i swyddi rheng-flaen a'i swyddi cefnogol, o yrru trenau yn yr efelychydd i gynnal a chadw trenau a gweithrediadau yn nepo Ffynnon Taf, hyb gweithgareddau Metro'r cwmni.
- Prynhawn gyda'r tîm Gweithrediadau – byddwch yn ymweld â Chanolfan Gweithrediadau Llwybr Cymru, gan gynnwys sgyrsiau gydag amrywiaeth o fenywod yn y gweithle mewn swyddi gweithredol hanfodol yn y sefydliad, gan gynnwys Signalwr.
- Ymuno â thîm Rheoli Asedau Cymru a'r Gororau i edrych ar sut rydym yn cadw'r rhwydwaith yn ddiogel a dibynadwy – cwrdd â'r arbenigwyr sy'n gwneud penderfyniadau allweddol, a dysgu sut mae data, technoleg a pheirianneg yn dod at ei gilydd i reoli rhai o seilweithiau mwyaf hanfodol y wlad bob dydd!
- Treulio diwrnod gyda'n tîm cynnal a chadw i ddysgu sut maen nhw'n gofalu am ein seilwaith
- Gwella eich sgiliau cyflogadwyedd gyda sesiynau ysgrifennu CV ac awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau, a sesiwn i rannu eich syniadau, dathlu cynnydd yr wythnos, a dod â'r wythnos i ben gyda'n gilydd.

**Y dyddiad cau i gyflwyno eich cais yw 21 Medi 2025.** Yn dibynnu ar nifer y ceisiadau, efallai y byddwn yn cau'r hysbyseb yn gynnar.

**Dyddiadau:** Dydd Llun 10 Tachwedd 2025 i ddydd Gwener 14 Tachwedd 2025
**Lleoliad:** Caerdydd/Casnewydd
**Ar gyfer:** Menywod dros 18 oed sydd wedi cymryd seibiant o'u gyrfaoedd, wedi bod ar gyfnod mamolaeth, wedi cael eu diswyddo neu'n chwilio am newid gyrfa.

Sganiwch y cod QR i ddysgu mwy ac i gofrestru eich manylion!